

Cwestiynau a ofynnwyd yn y weminar a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2020

Cwestiwn	Ymateb
<p>1. A yw goblygiadau hirdymor COVID wedi cael eu hystyried ynghyd â'r angen i beidio â dibynnu ar un gyfres derfynol o arholiadau?</p>	<p>Mae Cymwysterau Cymru yn parhau i adolygu effaith Covid-19 ar y system arholi/dyfarnu yn ei chyfanrwydd, gan gynllunio senarios ar gyfer y dyfodol er mwyn creu system ddibynadwy, hyblyg a chadarn a fydd yn cefnogi cynnydd dysgwyr. Mae opsiynau nad ydynt yn dibynnu ar un gyfres derfynol o arholiadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddiwygio cymwysterau.</p>
<p>2. Pam na chafodd egwyddor allweddol ei chymhwyso i gymwysterau a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n cefnogi annibyniaeth economaidd (yr unigolyn a'r genedl)?</p>	<p>Mae'r egwyddorion canllaw yn adeiladu ar ein fframwaith rheoleiddio presennol. Eisoes, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob cymhwyster rheoleiddiedig fod â phwrpas clir a bod yn ddilys, yn ddibynadwy, yn ddichonadwy ac yn gymaradwy â chymwysterau tebyg eraill. Mae a wnelo egwyddor y traean â sicrhau argaeledd cymwysterau sy'n ategu sawl trywydd a llwybr cynnydd gwahanol – bydd hyn yn helpu i gefnogi economi'r dyfodol a'r rhannau y gall pobl ifanc eu chwarae ynddi. Fel rhan o'r ymgynghoriad fe wnaethom ofyn a ddylem fabwysiadu egwyddorion ychwanegol ar wahân i'r rhai y gwnaethom ymgynghori yn eu cylch.</p>
<p>3. Faint o waith a gaiff ei wneud â Phrifysgolion Lloegr i sicrhau y bydd yr elfennau cyfredol a chludadwy a drafodwyd yn cael eu gwarantu i ddysgwyr yng Nghymru, yn enwedig i'r disgyblion hynny sy'n byw mewn siroedd ffiniol?</p>	<p>Mae gennym unigolyn penodedig ynghyd â chydweithwyr ehangach yn gweithio gyda Phrifysgolion – rhai Cymru a Lloegr (yn enwedig Prifysgolion sydd wedi'u lleoli wrth y ffin ac sy'n derbyn nifer fawr o ddysgwyr o Gymru) a Phrifysgolion Grŵp Russell i godi ymwybyddiaeth o'r system gymwysterau yng Nghymru, a'i deall. Bydd y ddeialog barhaus yn parhau ac mae'n gadarnhaol iawn.</p>

<p>4. Rhaid inni sicrhau y bydd cymwysterau 'TGAU' Cymru nid yn unig yn gymaradwy ac yn gyfartal â rhai Lloegr, ond y bydd galw mawr amdanynt ac y byddant yn uchel eu bri.</p>	<p>Ein gweledigaeth yw bod pobl ifanc 16 oed yn sefyll cymwysterau ac iddynt barch byd-eang sy'n eu hysbrydoli a'u paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.</p> <p>Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon rydym yn edrych ar gymwysterau a gymerir yn 16 oed yn rhyngwladol ac yn defnyddio hyn i helpu i lywio'r gwaith o gynllunio cymwysterau TGAU yng Nghymru yn y dyfodol.</p>
<p>5. A fydd dryswch os yw Cymru a Lloegr yn defnyddio'r enw TGAU pan fydd graddau'n wahanol, a bod y cynnwys tipyn yn wahanol? Felly bydd 2 fath o gymhwyster yn defnyddio'r un enw.</p>	<p>Mae rhai gwahaniaethau eisoes yn nyluniad cymwysterau TGAU a gymerwyd ledled y DU. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y gellir ymddiried mewn TGAU a ddilynir yng Nghymru, a'u bod yr un mor ddibynadwy ac yn gymaradwy â'r rheini a ddilynir gan ddysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ein prif nod yw bod cymwysterau TGAU yng Nghymru yn berthnasol i, ac yn cefnogi, nodau a phwrpasau'r cwricwlwm newydd i Gymru.</p>
<p>6. Mae toreth o dystiolaeth yn awgrymu bod gwaith cwrs ac asesiadau gan athrawon sy'n seiliedig ar brosiectau yn ffafrio'r disgyblion hynny a chanddynt gefndir mwy manteisiol. Efallai nad yw arholiadau'n berffaith, ond awgryma'r dystiolaeth mai nhw sydd decaf. A fydd hyn yn cael ei ystyried wrth lunio asesiadau newydd?</p>	<p>Bydd. Byddwn yn ystyried tystiolaeth amrywiol wrth lunio asesiadau newydd. Yn wir, mae'r sefyllfa o ran Covid-19 wedi agor y drws i ffordd hollol newydd o feddwl am asesu i ni yn Cymwysterau Cymru wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr gymorth i gyflawni.</p>
<p>7. Beth yw eich barn ynglŷn ag asesu cynnwys sydd wedi'i ddewis yn unigol gan ysgolion fel rhan o'u cwricwlwm lleol ar gyfer Cymru?</p>	<p>Fel rhan o'r rhaglen i ddiwygio cymwysterau, caiff asesu o bob math ei ystyried. Yn unol â'r cwricwlwm newydd a'r dymuniad i ysgolion ddatblygu eu cwricwlwm lleol eu hunain, rydym yn ystyried sut y gellir asesu hyn.</p>

<p>8. A ydych yn ystyried cymhwyster sy'n gyfwerth â'r Fagloriaeth Ryngwladol?</p>	<p>Rydym wedi ystyried y fagloriaeth ryngwladol a modelau eraill sy'n debyg i fagloriaethau, ac er bod cryfderau yn perthyn iddynt rydym o'r farn mai canolfannau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar eu darpariaeth eu hunain er mwyn i'r dysgwyr gael profiad o gwricwlwm eang a chytbwys hyd at 16 oed.</p> <p>Fe allai model tebyg i fagloriaeth gynnig un ffordd i ysgolion o wneud hyn, ond ni ddylai gael gwared â'u rhyddid i benderfynu pa ddewisiadau i'w cynnig i ddysgwyr. Mae ein barn wedi'i seilio ar y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pe defnyddid model bagloriaeth i gyfyngu ar y cyfuniadau o gymwysterau y gall canolfannau a ariennir yn gyhoeddus eu cynnig, byddai hyn yn groes i'r nod o roi mwy o ryddid iddynt i reoli eu cwricwlwm eu hunain. • Er y disgwylir i ddysgwyr ymhél â phob rhan o'r cwricwlwm hyd at 16 oed, nid yw'n angenrheidiol i bob dysgu a phob profiad arwain at gymwysterau a gaiff eu cydnabod, neu fod â gwerth addysgol. • Gall modelau matricwleiddio arwain at rwystrau artiffisial, gan olygu y bydd dysgwyr na fyddant yn cwblhau pob rhan o'r model yn cael eu cosbi i bob pwrpas. • Canolfannau a ariennir yn gyhoeddus sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y rhaglen ddysgu a'r cymwysterau mwyaf priodol i ddiwallu anghenion unigol eu dysgwyr.
<p>9. Oes ystyriaeth i beidio defnyddio y raddfa A*-G er mwyn osgoi'r sefyllfa lle mae disgyblion yn gwybod ar ddechrau cwrs nad ydyn bosib iddyn nhw 'lwyddo' yn eu golwg nhw sef cyrraedd C+</p>	<p>Oes, mae ystyriaeth a thrafodaeth ar y mater. Mae'r un her gyda'r system graddau 1-9 hefyd yn Lloegr.</p>

<p>10. A fyddai cael TGAU Lefel 1 a TGAU Lefel 2 yn osgoi hyn? O leia bydda disgybl sy'n cychwyn ar gwrs penodol yn gwybod y byddai modd iddyn nhw gyrraedd y radd uchaf o fewn y cymhwyster maen nhw arno</p>	<p>Un nodwedd sy'n gyffredin yn holl gymwysterau TGAU Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yw eu bod yn cwmpasu lefel 1/2. Mantais y dull hwn yw sicrhau bod cymwysterau TGAU yn hygyrch i gyfran helaeth o'r cohort.</p> <p>Fel rhan o'n gwaith ar lunio ac asesu cymwysterau TGAU yn y dyfodol, byddwn yn ystyried sut y gallwn gyfleu'n fwy effeithiol y bydd graddau is na'r radd C bresennol yn cynrychioli 'llwyddiant' ar lefel 1. Rydym hefyd yn ystyried dull o haenu cymwysterau TGAU er mwyn ceisio lleihau'r risg y bydd perfformiad dysgwyr yn cael ei gapio ar radd is na'r radd C bresennol.</p>
<p>11. Os yn tendero cymwysterau, bydd angen bod yn ofalus o ran "overlap" wrth gwrs, fel sydd wedi ei grybwyll yn barod. Hefyd, os yn meddwl am gontinwm o'r Cwricwlwm newydd a fyddai'n syniad falle i ofyn am dener o fewn pob "maes" falle. Felly falle bod tender Hanes/AG/Daear yn cael ei roi i'r un cwmni gan y bydd yn haws cadw cysondeb?</p>	<p>Wrth i ni benderfynu ar yr ystod o gymwysterau y dyfodol, byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio ein pwerau statudol i sicrhau cynnig cydlynol a chynhwysol i ddysgwyr ac ysgolion. Ydd hyn yn cynwys datblygu'r hyn a alwn yn 'feini prawf cyneradwyo' fel ein bod yn nodi cynnwys a threfniadau asesu pendodol ni waeth pa gorff dyfarnu sy'n datblygu a chynnig y cymwysterau.</p>
<p>12. Dwi'n nodi'r defnydd o 'GCSEs' a'r ieithwedd sydd yn cael ei ddefnyddio yn y weminar yma. A yw hynny'n golygu fod penderfyniad wedi ei wneud y byddai ymgeiswyr yn derbyn sawl cymhwyster 'TGAU' 'discreet'? Bu trafodaethau cychwynnol o amgylch y posibilrwydd o fabwysiadu cyfundrefn arholi/asesu arloesol, ee yn cyfuno'r pynciau a'r sgiliau i ddilyn llwybr megis y Fagloriaeth Rhyngwladol - fydd yn wir yn ymateb i anghenion cenedlaethol a rhyngwladol.</p>	<p>Rydym yn dal i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd, gan ystyried manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau sydd ar gael inni. Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid i ddatblygu cynigion clir, a byddwn yn ymgynghori yn eu cylch yn ystod 2020 a 2021. Hefyd, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein syniadau mewn meysydd eraill, gan gynnwys pa gyngor y gallwn ei roi i'r Gweinidog ynghylch ffurf Bagloriaeth Cymru yn y dyfodol a'r defnydd a wneir ohoni.</p>

<p>13. A ydych wedi pennu proses ar gyfer ystyried sut y bydd y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru yn cyd-fynd â chymwysterau sydd ar gael i fyfyrwyr, ôl-16, ledled y DU?</p>	<p>Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu ar gyfer dysgwyr 3-16 oed, rydym yn canolbwyntio ar gymwysterau a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr pan fyddant yn 16 oed. Wrth gynnig newidiadau i gymwysterau a gaiff eu sefyll pan fydd dysgwyr yn 16 oed, byddwn yn cadw mewn cof y goblygiadau a gaiff y newidiadau hyn o ran cymwysterau sydd ar gael i fyfyrwyr, ôl-16, ac o ran camu ymlaen at addysg a hyfforddiant ôl-16.</p>
<p>14. A fydd asesu gan athrawon yn rhan o hyn?</p>	<p>Yn sicr, mae Covid-19 wedi agor ein llygaid i ffyrdd eraill o asesu, yn cynnwys asesu gan athrawon.</p>
<p>15. Mewn gwirionedd, nid oes modd asesu sgiliau ar wahân i elfennau eraill. Dywedodd yr Athro Donaldson ei hun na all sgiliau fodoli heb sylfaen wybodaeth. Yn y bôn, bydd unrhyw asesiad o sgiliau yn brawf llechwraidd o wybodaeth. Efallai y gall hyn esbonio pam y bu ymateb disgyblion i'r Her Sgiliau yn gymysg, a dweud y lleiaf. Sut y gallwn oresgyn hyn?</p>	<p>Yn ddiweddar buom yn adolygu'r Dystysgrif Her Sgiliau ac fe wnaethom bennu agweddau ar y cymhwyster presennol a allai elwa ar gael eu datblygu ymhellach, ac rydym wedi cynnig y dylai fersiwn ddiwygiedig o'r cymhwyster hwn fod yn rhan o'r cymwysterau a gynigir i ddysgwyr 16 oed. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut y gall y strwythur a'r model asesu gael eu hailwampio er mwyn iddynt fod yn symlach ac yn fwy dibynadwy, ac ategu'r cwricwlwm newydd. Ein nod yw cael cymhwyster seiliedig ar sgiliau a fydd yn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Cymhwyster a fydd yn hynod ddiddorol, yn ddichonadwy ac yn hawdd ei ddeall, ac a fydd yn berthnasol i ddysgwyr y presennol a'r dyfodol.</p>
<p>16. A fydd asesiadau heb arholiadau yn sgil Covid yn cael eu gwerthuso?</p>	<p>Bydd y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno i'r system oherwydd Covid-19 yn cael eu hadolygu ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Bydd y canfyddiadau'n bwydo i'r gwaith cynllunio senarios ar gyfer 20/21.</p>

<p>17. Mae disgyblion yn credu bod rhai pynciau'n haws nag eraill oherwydd y dulliau asesu gwahanol a'r gwahaniaeth yn eu pwysoliad. A fydd modd inni ryw dro gael system lle bydd rhai cymwysterau, dim ond eu craidd hyd yn oed, yn gyfartal o ran arholiadau a/neu bwysoliad C/W CAT h.y. yr un rhaniad?</p>	<p>Mae ystyried y cynllun a'r nodweddion asesu yn y dyfodol yn rhan bwysig o'r rhaglen ar gyfer diwygio cymwysterau. Bydd yr ymgynghoriad nesaf yn cynnwys rhai cynigion cychwynnol yn y maes hwn.</p>
<p>18. A fydd Cymwysterau Cymru yn cael llais yn y trafodaethau sydd angen i gael we lydan cryf i bob cartref yng Nghymru er mwyn sicrhau tegwch i bobl ifanc Cymru? Yn enwedig os yw asesu yn dibynnu mwy ar yr ochr ddigidol yn y dyfodol</p>	<p>Mae'r her o gael mynediad at we lydan i bob dysgwr ar draws Cymru yn parhau. Byddwn yn pwysleisio'r pwysigrwydd mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ac yn ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.</p>
<p>19. O ran newidiadau i gymwysterau TGAU, er enghraifft yn y Dyniaethau, oni fyddai'n well cadw tri phwnc traddodiadol y Dyniaethau fel y maent, ac efallai eu tocio i gyd-fynd â gofynion UG/Safon Uwch a graddau, ac addasu cwrs arall ar gyfer TGAU Dyniaethau i ddisgyblion sy'n dal i ddymuno dilyn y Dyniaethau, ond ei asesu mewn ffordd wahanol, er enghraifft gwaith cwrs 100%? Yn draddodiadol mae pynciau'r Dyniaethau wedi bod yn eithaf elitaidd h.y. arholiadau'n cael canran uchel yn y tri phwnc. Nid wyf yn credu bod angen newid unrhyw un o'r tri, dim ond ychwanegu opsiwn arall ar gyfer dysgwyr TGAU.</p>	<p>Ar hyn o bryd rydym yn ystyried pob opsiwn a fydd yn diwallu anghenion pob dysgwr, gan gyd-fynd hefyd â nodau a diben y cwricwlwm newydd.</p>
<p>20. Ni allaf ddilyn y rhesymeg o gael cymwysterau pwnc penodol h.y. daearyddiaeth mewn Amgylchedd Maes Dysgu h.y. y Dyniaethau. Os felly, nid oes gennym gwricwlwm newydd mewn gwirionedd.</p>	<p>Ar hyn o bryd rydym yn ystyried pob opsiwn a fydd yn diwallu anghenion pob dysgwr, gan gyd-fynd hefyd â nodau a diben y cwricwlwm newydd.</p>

<p>21. Fe wnaethoch ddweud yn gynharach mai'r egwyddor fydd bod yn gyfwerth â gweddill y DU – a yw hyn yn golygu y byddwn, o ran cynnwys, yn nesáu at y drefn a geir yn Lloegr gyda chymwysterau TGAU 9-1?</p>	<p>Yn amlwg, fe fydd yna rywffaint o orgyffwrdd yn y cynnwys rhwng cymwysterau TGAU yng Nghymru a gweddill y DU. Fodd bynnag, ein prif nod yw y bydd cymwysterau TGAU yng Nghymru yn ymwneud â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru, ac yn eu hategu. Eisoës, ceir rhai gwahaniaethau yng nghynllun cymwysterau TGAU a gaiff eu sefyll ledled y DU ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd cymwysterau TGAU a gaiff eu sefyll yng Nghymru yn parhau i fod yn rhai y gellir ymddiried ynddynt ac yn parhau i fod yn ddibynadwy ac yn gymaradwy â'r rhai a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.</p>
--	--